



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

POLISI CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN



Dysgu
Learn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cefndir	2
Diben	3
Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/21	3
Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg	3
Rôl y Darparwyr	4
Rôl y Ganolfan	5
Amserlen Ceisiadau	6
Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio	7
Prosesu'r Taliad	7
Dysgwyr Cymwys	8
Costau Dilys	9
Asesu Ceisiadau	10
Proses Apêl	11
<i>Atodiadau</i>	
Atodiad 1: Rheoliadau Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/21	
Atodiad 2: Taflen Gwybodaeth i Ddysgwyr	
Atodiad 3: Ffurflen Gais	

Cefndir

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar 1 Awst 2016 gyda'r bwriad o ddarparu arweiniad strategol i'r maes Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn darparu grant i ddarparwyr i ddarparu gwersi dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Y Darparwyr yw:

Darparwr	Ardal
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Dinbych, Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Gwent	Gwent
Dysgu Cymraeg Y Fro	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Dinas Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	

Diben

Diben y Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/21 yw darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/21

Bydd y Gronfa yn cael ei defnyddio yn unol â'r Rheoliadau a gynhwysir yn Atodiad 1.

Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg

Gwerth y gronfa sydd wedi ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn addysgol yn 2020/21 yw £31,250.10. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn derbyn yr arian gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan fydd yn gyfrifol am weinyddu'r arian i'r dysgwyr. Dyfernir yr arian i'r Ganolfan yn dymhorol drwy'r rhaniad canlynol:

Blwyddyn Addysgol	Tymor	Swm
2020/21	Tymor 1 (Medi 2020 – Rhagfyr 2020)	£17,857.20
2020/21	Tymor 2 (Ionawr 2021 – Mawrth 2021)	£13,392.90
2020/21	Tymor 3 (Ebrill 2021 – Awst 2021)	I'w gadarnhau

Unwaith bydd y gronfa wedi dod i ben byddwn yn hysbysu'r Darparwyr er mwyn gallu rhannu'r wybodaeth gyda dysgwyr sy'n gwneud ymholiadau.

Rôl y Darparwyr

Prif rôl y Darparwyr fydd hyrwyddo y Gronfa ac annog dysgwyr i wneud cais. Disgwylir i bob Darparwr hyrwyddo'r Gronfa er mwyn sicrhau tegwch i Ddysgwyr ar draws Cymru i gael yr un cyfle i wneud defnydd ohoni.

Bydd y Darparwyr yn hysbysu pob Dysgwr o'r Gronfa wrth iddynt gofrestru/ ymrestru er mwyn sicrhau cynhwysedd a thegwch i unrhyw un allu ystyried gwneud cais.

Gwneir hyn drwy:

- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa yn y prospectws
- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa wrth farchnata'r cyrsiau, yn enwedig wrth dargedu grwpiau penodol all fanteisio ar gymorth y Gronfa e.e. ardaloedd difreintiedig
- sicrhau bod pob tiwtor yn derbyn gwybodaeth ac yn deall pwrpas y Gronfa
- gyfeirio at y Gronfa yn y sesiwn anwytho ar gyfer pob Dysgwr a darparu gwybodaeth am sut i wneud cais
- sicrhau bod dysgwyr yn gallu trafod anghenion neu dderbyn cyngor am y Gronfa gan aelod o staff perthnasol

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth lawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad yn unol â'r amserlen isod.

Bydd y Darparwyr yn sicrhau bod aelod o staff ar gael i gynghori a darparu gwybodaeth i unrhyw Ddysgwr sydd eisiau trafod y Gronfa neu eisiau cymorth wrth wneud cais.

Darperir taflen gwybodaeth a ffurflen gais yn Atodiad 2 ac Atodiad 3. Dim ond y rhain y dylai'r darparwyr eu defnyddio a dim ond ceisiadau ar y ffurflen hon a dderbynnir gan y Ganolfan oddi wrth ddysgwyr.

Rôl y Ganolfan

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn gweinyddu'r Gronfa Arian Wrth Gefn ar ran y maes Dysgu Cymraeg.

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adrodd yn rheolaidd ar wariant y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Bydd awdit o'r gwariant yn cael ei gynnwys fel rhan o archwiliad blynyddol y Ganolfan ac yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon blynyddol.

Bydd adroddiadau tymhorol ar ddefnydd o'r Gronfa yn cael eu darparu i'r Darparwyr er mwyn adnabod os oes defnydd llawn yn cael ei wneud o'r Gronfa neu os oes angen hyrwyddo ymhellach.

Bydd y Ganolfan yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r Darparwyr am ddefnydd neu ddiffyg defnydd eu Dysgwyr o'r Gronfa wrth asesu nifer y ceisiadau a dderbynnir o bob ardal.

Cyfrifoldebau

Bydd Swyddog Gweithredol Cyllid y Ganolfan yn gyfrifol am dderbyn y ceisiadau gan y Dysgwyr a chydlynu'r broses dyfarnu.

Y Swyddog Gweithredol Cyllid fydd y prif gyswllt i'r Darparwyr sydd ag unrhyw ymholiadau am y Grant.

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Lywodraeth Cymru.

Amserlen Ceisiadau

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau, fan bellaf, a bydd taliadau yn cael eu prosesu yn unol â'r cynllun.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth llawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad.

Blwyddyn Addysgol	Hawliad am y Cyfnod	Dyddiad Derbyn Ceisiadau
2020/21	Tymor 1 (Medi 2020 – Rhagfyr 2020)	08.01.2021
2020/21	Tymor 2 (Ionawr 2021 – Mawrth 2021)	19.03.2021
2020/21	Tymor 3 (Ebrill 2021 – Awst 2021)	I'w gadarnhau (os bydd Llywodraeth Cymru yn ymestyn y grant)
2020/21	Ysgolion Haf Yn Unig (Gorffennaf 2021 – Awst 2021)	I'w gadarnhau (os bydd Llywodraeth Cymru yn ymestyn y grant)

Noder mai ceisiadau ar gyfer Ysgolion Haf yn unig a dderbynnir ar ddiwedd mis Awst. Os bydd cais am wersi tymhorol yn cael eu cynnwys, ni fydd modd i'r gronfa ad-dalu'r costau.

Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio

Bydd y Ganolfan yn dilyn strwythur o asesu pob cais yn ddiuedd ac yn gyson ar draws Cymru. I'r perwyl hyn bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y matrics sgorio.

Bydd y matrics yn sgorio yn erbyn y math o gymorth y ceisir amdano ynghyd â amgylchiadau penodol yr unigolyn.

Bydd disgwyl i bob cais ymateb i'r gofynion sylfaenol fel lleiafswm.

Bydd y Swyddog Gweithredol Cyllid yn gyfrifol am yr asesiad cychwynnol yn erbyn y sgorau matrics, a bydd yn cyflwyno'r sgor a'r argymhelliad i ddyfarnu arian i'r unigolyn i'r Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr, a fydd yn cymeradwyo'r dyfarniadau.

Nid oes gwarant y bydd dysgwyr yn derbyn y symiau sydd wedi nodi yn eu cais. Bydd penderfyniad ar swm y taliad yn cael ei wneud gan Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr, yn unol â'r canllawiau isod:

Cais am swm hyd at (a chynnwys) £50 (mewn tymor)	Taliad Llawn
Cais am swm uwch na £50 (mewn tymor)	Taliad rhannol neu llawn (yn ddibynnol ar y cais)

Prosesu'r Taliadau

Prosesir y taliadau ar raddfa dymhorol i'r dysgwyr, yn unol â'r amserlen a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau. Bydd y Ganolfan yn gwirio gyda'r Darparwr fod y dysgwr yn parhau i bresenoli ei hun yn y gwersi drwy ddarparu rhestr o'r dysgwyr sy'n derbyn cymhorthdal yn dymhorol. Cyfrifoldeb y darparwr fydd hysbysu'r Ganolfan os yw dysgwr yn penderfynu peidio parhau gyda'r gwersi.

Dysgwyr Cymwys

Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid i unigolion gadarnhau eu bod yn cyrraedd y gofynion craidd canlynol:

Sefyllfa	Tystiolaeth
Bod posib i fynediad at addysg gael ei rwystro am resymau ariannol, neu eu bod yn wynebu problemau ariannol am unrhyw rheswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu feddyliol	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 1 Medi 2020	Ymrwymiad ar y ffurflen gais (dyddiad geni ac oedran)
Yn breswylwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gyda un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Rhif Cofrestru a Chadarnhad gan y Darparwr / Tiwtor

Mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i unigolion yn y sefyllfaoedd canlynol:

Sefyllfa	Tystiolaeth
Rhiant gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Rhiant sengl gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Gofalwyr, a fu'n derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwyr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Ar incwm isel, gan gynnwys rhai sydd ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel *	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Preswyllo mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 pwynt neu is ar restr sgorio WIMD 2014 y Llywodraeth	Gwiriad o god post yn erbyn WIMD 2014 y Llywodaeth – Swyddog Gweithredol Cyllid i wirio
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio a derbyn 'elfen plant y credyd cynhwysol' ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg pen-blwydd	Ymrwymiad ar y ffurflen gais

*Mae posib i'r Ganolfan ofyn am brawf eich bod ar incwm isel fel rhan o'n proses archwilio, ond nid oes rhaid darparu tystiolaeth gyda'r cais. Dylai ddysgwyr felly sicrhau fod y prawf ar gael pe byddai gofyn amdano.

Costau Dilys

Bydd y Ganolfan yn ystyried ceisiadau am y costau isod:

Cais	Disgrifiad	Tystiolaeth	Uchafswm Dyfarniad
Gofal Plant	Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwera / sesiwn	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion nifer y gwera/sesiynau.	£17.50 y plentyn pob gwera/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr)
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Mynediad	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£20
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Sylfaen	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£22
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Canolradd	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£24
Ffi Arholi	Ffi Arholiad Lefel Uwch	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	£32
Cyfarpar / adnoddau dysgu	Adnoddau ar gyfer y cwrs, megis llyfrau, CD, ffeiliau	Derbyneb(au) yn nodi'r adnoddau a'r symiau	£50 mewn cyfnod o 12 mis
Costau Teithio - Milltired	£0.25 y filltir am y siwrnai i wers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul siwrnai)	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneau a manylion y daith	£15 fesul siwrnai (hyd at 60 milltir x £0.25)
Costau Teithio -Bws / Tren	Cost siwrnai i fynychu gwera/sesiwn	Copiâu o'r tocynnau	£15 fesul siwrnai
Costau Parcio	Cost Parcio wrth fynychu gwera/sesiwn	Copiâu o'r tocynnau parcio, yn cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers/sesiwn
Anabledau	Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anabledau	Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth	£10 y wers/sesiwn

Ni all y gronfa gael ei defnyddio ar gyfer ad-dalu'r costau canlynol:

- Ffi Cwrs
- Dirwyon
- Costau heb eu talu eto
- Blaendaliadau
- Costau heb y dystiolaeth gywir (nodir yn y tabl uchod)

Asesu Ceisiadau

Nod y Ganolfan fydd asesu a phenderfynu ar lwyddiant y ceisiadau sy'n dod i law yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Dysgwyr yn derbyn dyfarniad a'r taliadau (os yn llwyddiannus) heb oedi. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r drefn a ddilynir:

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais i'r Ganolfan	Erbyn y dyddiad cau ar gyfer y tymor a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Dysgwr
2	Sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
3	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr
4	Talu'r dysgwr	Dyddiad a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Swyddog Gweithredol Cyllid
5	Adborth i'r dysgwyr aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
6	Adrodd ar y dyfarniadau	Diwedd y tymor	Swyddog Gweithredol Cyllid

Proses Apêl

Gall Dysgwr apelio yn erbyn y penderfyniad drwy wneud hynny yn ysgrifenedig. Yn y man cyntaf, darperir adborth iddynt ar y matrices sgorio a'r rheswm pam na fuont yn llwyddiannus.

Mae'n bosib i ddysgwyr apelio'r penderfyniad, drwy ail gyflwyno eu cais, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais apel i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 15 diwrnod gwaith o dderbyn adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Llythyr / e-bost yn diolch am y cais	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Prif Swyddog Trefniadaeth
3	Ail sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
4	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr Systemau/Dirprwy Brif Weithredwr
5	Talu'r dysgwr	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
6	Paratoi adborth i'r rhai aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Gweithredol Cyllid
7	Adrodd ar y dyfarniadau	Yn dilyn taliad	Swyddog Gweithredol Cyllid

Apeliadau Pellach

Os nad yw'r Dysgwr wedi llwyddo unwaith eto, gellir ysgrifennu yn ffurfiol at Brif Weithredwr y Ganolfan yn nodi sail eu hapêl. Dylid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod i dderbyn dyfarniad yr ail gais. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr yn derfynol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno apêl pellach i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr ail adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Asesiad	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Prif Weithredwr
3	Hysbysu o ddyfarniad terfynol yr apêl	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Prif Weithredwr

Atodiad 1 - Rheoliadau Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach)
(Cymru) 2020/21

2020 (WG20-47)

**Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn
(Addysg Bellach) (Cymru)
2020/2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)

Mae'r Cynllun hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliadau addysg bellach a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (canolfannau iaith Cymraeg i Oedolion gynt) yng Nghymru, at ddiben sefydlu cronfeydd disgresiynol i'w defnyddio i ddarparu taliadau brys mewn cysylltiad ag argyfyngau annisgwyl; a darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg bellach mewn sefydliad addysg bellach neu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol. Mae'n darparu gwybodaeth i sefydliadau a chanolfannau iaith am ddiben y Cynllun a'r trefniadau ar gyfer gweinyddu cyllid o'r fath, ac yn gosod gofynion mewn cysylltiad â'r trefniadau hynny.

Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2020 ac mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2020 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

2020 (WG20-47)

Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/2021

RHAN 1 - CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/2021.

2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2020 ac mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2020 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

3. Yn y Cynllun hwn—

ystyr "Sefydliad" yw sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cael cyllid gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Cynllun hwn.

Diwygio

4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau a nodir yn y Cynllun hwn, eu dirymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

Cyngor ariannol

5. Mae darparu cyngor ariannol i fyfyrwr yn rhan allweddol o sicrhau y defnyddir y Cynllun hwn yn effeithiol.

RHAN 2 – DIBEN Y CYNLLUN

6. Mae'r cyllid a ddyrennir i Sefydliad at ddibenion y Cynllun hwn i'w ddefnyddio i ddarparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

Dibenion y caniateir defnyddio taliadau ar eu cyfer

7. Ni chaniateir defnyddio'r taliadau a wneir i fyfyrwyr yn rhinwedd y Cynllun hwn ac eithrio at y dibenion a bennir yn y Cynllun hwn.

Grwpiau â blaenoriaeth

8. Rhaid i Sefydliadau asesu cais myfyriwr am gyllid yn unol â Rhan 5 (Penderfynu ynghylch Taliadau) o'r Cynllun hwn. Wrth benderfynu pa fyfyrwr unigol i'w cefnogi o blith y rhai sy'n gymwys, rhaid i Sefydliadau roi blaenoriaeth i fyfyrwr sy'n perthyn i un neu ragor o'r grwpiau â blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 9. Nid yw trefn rhestr y grwpiau â blaenoriaeth ym mharagraff 9 yn dangos trefn blaenoriaeth o fewn y rhestr.

9. Y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer cymorth o dan y Cynllun hwn yw myfyrwyr cymwys fel a ganlyn:

(1) Myfyrwyr y mae arnynt angen cymorth gyda chostau gofal plant, yn enwedig rhieni unigol;

(2) Myfyrwyr a fydd yn cyrraedd 20 mlwydd oed cyn cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau AB eraill, ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol, oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â chael budd-daliadau plant ac ychwanegiadau dibyniaeth yn eu budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol neu gredydau treth ar gyfer y myfyrwyr hyn, o 20fed pen-blwydd y myfyriwr ymlaen;

(3) Myfyrwyr sy'n ofalwyr (sy'n darparu cymorth di-dâl i rywun na allai ymdopi heb y cymorth hwn); a fu'n derbyn gofal, neu ar brawf, neu fyfyrwyr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall;

(4) Myfyrwyr ar incwm isel, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymhorthdal incwm neu fyfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel, gan gynnwys y teuluoedd hynny sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-daliadau prawf modd y wladwriaeth megis Credyd Treth Gwaith a'r rheini sydd â dibynyddion nad ydynt yn ennill;

(5) Myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 neu'n is yn ôl y fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru(1);

(6) Myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â chael elfen plant y credyd cynhwysol ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg pen-blwydd y myfyriwr.

(1) Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar 1 Mai 2019, a bydd yn gymwys am oes gyfan y cynllun hwn. (<https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy>)

Dylai Sefydliadau nodi, os yw myfyriwr cymwys yn perthyn i un neu ragor o'r grwpiau â blaenoriaeth a restrir uchod, nad yw hynny ynddo'i hunan yn sail dros wneud dyfarndal o'r cyllid a ddyrennir at ddibenion y Cynllun hwn.

10. Mae'n ofynnol bod gan Sefydliadau bolisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn. Rhaid cyhoeddi'r polisi ysgrifenedig (ynghyd â'r weithdrefn apelio o dan baragraff 43) ym mha fodd bynnag y mae'r Sefydliad yn ystyried ei fod yn briodol, ar yr amod ei fod ar gael yn hwylus i fyfyrwyr y Sefydliad ac i'r rhai sy'n eu cynghori. Rhaid i'r polisi esbonio trefniadau gweithredol y Sefydliad ar gyfer dyrannu taliadau o'r fath. Rhaid i'r polisi ysgrifenedig ac unrhyw ddeunyddiau neu hysbysebion eraill a gyhoeddir mewn perthynas â'r Cynllun hwn gyfeirio at y Cynllun fel "Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru) 2020/21".

RHAN 3 – CYMHWYSTRA

Myfyrwyr a chysiau cymwys

11. Ni chaniateir gwneud taliadau o dan y Cynllun hwn ac eithrio i fyfyrwyr cymwys.

12. Myfyriwr cymwys yw myfyriwr sydd, ym marn y Sefydliad: (a) yn perthyn i un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Cynllun hwn; a (b) yn fyfyrwr addysg bellach 16 mlwydd oed neu'n hŷn sy'n dilyn cyrsiau llawnamser neu ran-amser yn y Sefydliad, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

13. Nid yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Cynllun hwn, ac eithrio cymorth tuag at ffioedd dysgu o dan baragraff 21 isod, os yr unig baragraff y mae'r myfyriwr cymwys yn perthyn iddo yn Rhan 2 o'r Atodlen yw paragraff 9.

RHAN 4 – MATHAU O DALIADAU

Grantiau

14. Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf grantiau.

Benthyciadau byrdymor

15. Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys ar ffurf benthyciadau byrdymor. Mater i'r Sefydliad yw penderfynu ar swm y benthyciad byrdymor i'w ddyfarnu i fyfyrwr cymwys.

Trefniadau swmpbrynu

16. Caiff sefydliadau wneud trefniadau swmpbrynu gyda chwmniau trafniadaeth lleol a darparu cyfarpar neu wasanaethau am brisiau is i fyfyrwyr cymwys y byddai arnynt angen cymorth, fel arall, o dan y Cynllun hwn.

17. Ni chaniateir defnyddio cyllid o dan y Cynllun hwn i ddisodli trefniadau swmpbrynu presennol a ariennir o gyllid y Sefydliad ei hunan neu gyfrannu atynt.

18. Pan fo Sefydliad yn ymuno mewn trefniant swmpbrynu, rhaid cynnal trywydd archwilio eglur, fel y gellir adnabod y myfyrwyr sy'n fuddiolwyr a swm y cyllid a ddyrannwyd o'r Cynllun hwn. Rhaid i'r cofnodion ddangos hefyd fod y mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n cael budd o'r trefniant swmpbrynu yn fyfyrwyr cymwys sy'n wynebu caledi ariannol ac y byddai'n anodd iddynt gael mynediad i'w hastudiaethau heb gymorth o'r fath.

RHAN 5 – PENDERFYNU YNGHYLCH TALIADAU

Ceisiadau am gyllid

19. Rhaid i Sefydliadau werthuso ceisiadau am gyllid o dan y Cynllun hwn fesul achos unigol yn unol â'u polisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu cyllid, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 10. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliadau asesu cais myfyriwr ar sail y dystiolaeth a ddarperir gan y myfyriwr hwnnw a'i amgylchiadau unigol. Dylai myfyriwr gael ei hysbysu pa un a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos i'r Sefydliad gael y cais hwnnw.

Ystyried cyllid o ffynonellau eraill wrth asesu cymhwystra

20. Rhaid i Sefydliadau ystyried amgylchiadau ariannol y myfyriwr ac argaeledd cymorth o ffynonellau eraill megis y Lwfans Cynhaliadaeth Addysg, Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (Cymru) 2020, neu gynllun cyfatebol arall a gyllidir gan y llywodraeth, budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac unrhyw gredydau treth perthnasol, taliadau o fenthyciadau datblygu gyrfa a chynlluniau tebyg a chymorth a ddarperir gan awdurdod lleol y myfyriwr.

Ffioedd dysgu a chostau sy'n gysylltiedig â chyrsgiau

21. Ni chaniateir defnyddio cyllid o dan y Cynllun hwn i dalu cost ffioedd dysgu ar gyfer unrhyw fyfyrwr

cymwys, ac eithrio mewn achosion pan fo myfyriwr cymwys rhan-amser yn ymgymryd â modiwl blas addysg uwch sy'n gyfwerth â 10% ond llai na 50% o gwrs addysg uwch llawnamser. Mae disgresiwn gan y Sefydliadau i ddarparu cyllid o dan y Cynllun hwn i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â modiwlau blas addysg uwch sy'n llai na 10% o gwrs addysg uwch llawnamser neu'n llai na 12 credyd ac fel arall yn bodloni meini prawf cymhwystra'r Sefydliad ar gyfer cymorth modiwl blas.

22. Caniateir defnyddio cyllid o dan y Cynllun hwn i gynorthwyo myfywrwyr cymwys i dalu ffioedd sy'n gysylltiedig â chysiau, megis ffioedd arholi a chofrestru cyrff dyfarnu, a chost eitemau o gyfarpar neu ddeunyddiau sy'n hanfodol er mwyn i'r myfyriwr cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau cwrs. Fel rheol, dylai unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau o'r fath a brynir gan Sefydliad o dan y Cynllun hwn barhau'n eiddo i'r Sefydliad.

23. Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys hefyd at ddiben eu cynorthwyo gyda chostau eraill sy'n gysylltiedig â chysiau. Mae costau o'r fath yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gofal plant, teithio, llyfrau a theithiau maes ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny.

24. Ni chaiff Sefydliadau wneud taliad i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â dirwyon a blaendaliadau.

Costau sy'n deillio o anableddau

25. Caiff Sefydliadau wneud taliadau at ddiben cynorthwyo myfywrwyr cymwys anabl a myfywrwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys taliadau mewn cysylltiad â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd ond nid yw'n gyfyngedig i'r taliadau hynny. Pan fo'r Sefydliad wedi prynu cyfarpar ar gyfer myfyriwr cymwys anabl o dan y Cynllun hwn, dylai'r cyfarpar hwnnw barhau'n eiddo i'r Sefydliad, oni bai bod y cyfarpar hwnnw wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol y myfyriwr hwnnw.

RHAN 6 – PROSESAU: Y RHYNGWYNEB RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A SEFYDLIADAU

Talu i Sefydliadau

26. Er mwyn cael cyllid at ddibenion y Cynllun hwn, rhaid i Sefydliad ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ei fod yn derbyn telerau ac amodau'r Cynllun hwn, a hynny cyn cael y cyllid.

27. Cyfanswm y cyllid i'w dalu i Sefydliad fydd y swm a ddyrannwyd i'r Sefydliad hwnnw gan Weinidogion Cymru.

28. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu'r cyllid i Sefydliadau mewn tri rhandaliad. Gwneir y rhandaliadau cyn pob tymor yn ôl y gymhareb 40:30:30. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cadw cyllid yn ystod y flwyddyn yn ôl os yw Sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cadw digon o gyllid i ddiwallu'r angen presennol.

Cyllid nas gwariwyd

29. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â sefydlu cynllun caledi olynol ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r Cynllun hwn yn ymwneud ag ef, rhaid dychwelyd yr holl gyllid nas gwariwyd ynghyd â'r llog a geir o dan y Cynllun hwn i'r Adran Addysg a Sgiliau erbyn 31 Gorffennaf 2021 fan bellaf.

Costau cyhoeddusrwydd a gweinyddu

30. Caiff Sefydliadau ddefnyddio 3% o gyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddynt o dan y Cynllun hwn neu £525, pa un bynnag yw'r swm mwyaf, i sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd effeithiol i'r Cynllun a'i fod yn cael ei weinyddu'n effeithiol.

Atebolrwydd

31. Prif Swyddog Gweithredol (neu swyddog cyfatebol) y Sefydliad sy'n gyfrifol am—

(1) cynghori Corff Llywodraethu'r Sefydliad ynglŷn â'i gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn;

(2) sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio ei ddyraniad o gyllid yn gyson â diben y Cynllun hwn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r Cynllun hwn; a

(3) cymryd pa gamau bynnag a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli ariannol ar waith, i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

Darparu cyfrifon a gwybodaeth ychwanegol

32. Mae'n ofynnol i Sefydliadau roi sylw i'r cyngor a roddir yn y ddogfen 'Financial Memorandum between the Welsh Government, further education institutions and higher education institutions providing further education' (Dogfen ganllawiau Rhif: 160/2015 ddyddiedig Mawrth 2015) neu unrhyw Femorandwm Ariannol diwygiedig neu olynol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

33. Rhaid i Sefydliadau ddilyn y trefniadau archwilio sydd yn y Memorandwm Ariannol uchod.

34. Rhaid i Sefydliadau roi unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad â'u cyfrifon archwiliedig ar gael i Weinidogion Cymru os gofynnant amdani.

35. Rhaid i Sefydliadau ddefnyddio'r ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn cysylltiad â benthyciadau byrdymor a wneir o dan baragraff 15 o'r Cynllun hwn at y dibenion a nodir yn y Cynllun hwn neu ar gyfer taliadau pellach y bydd rhaid eu dogfennu yn yr un modd â thaliadau gwreiddiol.

RHAN 7 – PROSES AU: Y RHYNGWYNEB RHWNG SEFYDLIADAU A MYFYRWYR

Taliadau i fyfyrwyr

36. Rhaid i Sefydliadau ymdrin â thaliadau myfyrwyr yn brydlon, gan gadw mewn cof ddiben y Cynllun hwn a'r amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

37. Ni chaiff Sefydliadau ymrwymo i wneud unrhyw daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i fyfyrwyr.

38. Caiff Sefydliadau gytuno mewn egwyddor ar daliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn cyn bo cwrs y myfyriwr cymwys yn dechrau, ond ni chaniateir talu unrhyw arian i'r myfyriwr hyd nes bod y myfyriwr wedi dechrau ei gwrs.

39. Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

40. Dylai Sefydliadau roi sylw i unrhyw God Ymarfer a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn cysylltiad â gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Taliadau i fyfyrwyr mewn cysylltiad â chyfarpar a deunyddiau

41. Caiff myfyriwr cymwys wneud cais am gyllid mewn cysylltiad â chyfarpar a/neu ddeunyddiau hanfodol y mae wedi eu prynu er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Os yw cais y myfyriwr yn llwyddiannus, caiff Sefydliad ad-dalu'r costau y mae'r myfyriwr yn mynd iddynt wrth brynu'r cyfarpar a/neu'r deunyddiau, yn llawn neu'n rhannol.

Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau wedi eu hatal dros dro

42. Caiff Sefydliad wneud taliadau o dan y Cynllun hwn i fyfyrwyr cymwys sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau ynglŷn ag iechyd, yr angen i ofalu am eraill, beichiogrwydd, neu unrhyw amgylchiadau eraill y mae'r Sefydliad yn barnu eu bod yn briodol, ar yr amod bod y Sefydliad wedi ei fodloni nad yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs nac wedi gadael y cwrs a'i fod yn bwriadu dychwelyd iddo.

Apelau

43. Rhaid i Sefydliadau fod wedi sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn apelio ar gyfer achosion pan fo myfyrwyr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o dan y Cynllun hwn. Dylai'r weithdrefn hon fod yn eglur, a rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr bod hawl ganddynt i apelio. Cyfrifoldeb y Sefydliadau sy'n gweinyddu'r Cynllun hwn yw penderfyniadau ynglŷn â chymhwystra a dyfardaliadau. Mater i'r Sefydliadau yw ystyried pob achos a datrys apelau yn unol â'u gweithdrefn gyhoeddedig.

44. Dylai Sefydliadau ystyried cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr yn y broses o wneud penderfyniadau.

Kirsty Williams AS

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 25 Awst 2020

YR ATODLEN

Myfyrwyr Cymwys

RHAN 1

Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) (oni nodir fel arall) yw—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig AEE—
 - (i) priod y person neu ei bartner sifil;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion priod neu bartner sifil y person sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y person neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—
 - (i) priod y person neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn UE sy’n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—
 - (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

- (d) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—
- (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9—
- (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hawl dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999⁽¹⁾ ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “ffoadur” (“*refugee*”) yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr “gweithiwr” yw “worker” o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

(1) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t. 6.

ystyr “gweithiwr mudol AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw gwladolyn AEE sy’n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw gwladolyn AEE sydd—

- (a) yn weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gweithiwr Twrcaidd” (“*Turkish worker*”) yw gwladolyn Twrcaidd—

- (a) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd; a
- (b) sy’n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi’n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn AEE” (“*EEA national*”) yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn UE” (“*EU national*”) yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd;

ystyr “gwladwriaeth AEE” (“*EEA State*”) yw Aelod-wladwriaeth o’r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw hawl sy’n codi o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

(a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwydddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a

(b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a

(b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE, ac eithrio'r Deyrnas Unedig, ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67” (“*person with section 67 leave to remain*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person (“A” yn y diffiniad hwn)—

(a) sydd—

- (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn(1), ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny; neu
 - (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
 - (iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo;
 - (iv) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol o dan y rheolau mewnfudo; neu
 - (v) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw'r person hwnnw yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo(2), fod y person hwnnw wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- (b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(3)) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd yn ôl disgrisiwn o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

(2) Mae paragraff 276BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

(3) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr etc) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4; gan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo 2010 (O.S. 2010/21), Atodlen 1 a chan Ddeddf Mewnfudo 2014 (p. 22).

cyfnod ers i A gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros;

ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

- (a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo (o fewn yr ystyr a roddir i “immigration rules” yn adran 33(1) o Ddeddf Mewnfudo 1971); a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i’r caniatâd hwnnw gael ei roi i’r person;

ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw’r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1);

ystyr “yr Undeb Ewropeaidd” (“*European Union*”) yw’r diriogaeth a ffurfir gan Aelodwladwriaethau’r Undeb Ewropeaidd fel y’i cyfansoddir o bryd i’w gilydd;

mae i “wedi setlo” yr ystyr a roddir i “settled” gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(2);

ystyr “Ynysoedd” (“*Islands*”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae “rhiant” yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae “plentyn” i’w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person (“A” yn yr is-baragraff hwn) i’w drin fel rhywun sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe bai A wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith bod—

- (a) A;
- (b) priod neu bartner sifil A;
- (c) rhiant A; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd neu’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(1) 1971 p. 77.

(2) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

(4) At ddibenion is-baragraff (3), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath; ac
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

RHAN 2

Categoriâu

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer

yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(3).

3. Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;

- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

4A.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a)—(i) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i ganiatâd gael ei roi i briod neu i bartner sifil y person hwnnw aros fel person diwladwriaeth.

(3) Person—

- (a)—(i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i ganiatâd gael ei roi i riant y person hwnnw, neu i briod neu i bartner sifil rhiant y person hwnnw, aros fel person diwladwriaeth.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person y rhoddyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.

Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

5.—(1) Person—

- (a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros; a
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.

Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person—

- (a) sydd—
 - (i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;
 - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
 - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);
 - (iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;
 - (v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd; neu
 - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);
- (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

7. Person—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad y Cyngor (EU) Rhif 492/2011 ar ryddid gweithwyr i symud⁽¹⁾.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall

8.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn

(1) OJ Rhif L141, 27.05.2011, t. 1.

union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo;

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (d), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson sydd â hawl i breswyllo'n barhaol sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae'n wladolyn iddi neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn iddi.

Gwladolion UE

9.—(1) Person—

- (a) sydd naill ai—
 - (i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac eithrio person sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig nad yw wedi arfer hawl i breswyllo; neu
 - (ii) yn aelod o deulu person o'r fath;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r

Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (b) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r gwladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r gwladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

10.—(1) Person—

- (a) sy'n wladolyn UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r gwladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

Plant gwladolion Swisaidd

11. Person—

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

Plant gweithwyr Twrcaidd

12. Person—

- (a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67

13.—(1) Person—

- (a) sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67; a
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn dibynnol i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ers i ganiatâd i aros o dan adran 67 gael ei roi i riant y person.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

Atodiad 2 – Taflen Gwybodaeth

CRONFA ARIANNOL
LEARNING FUND



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

**YDYCH CHI EISIAU CYMORTH ARIANNOL WRTH
DDYSGU CYMRAEG?**

Gallwch dderbyn cymorth ar gyfer:

Costau Gofal Plant

Costau Arholiad

Costau Teithio

Adnoddau

Am ragor o wybodaeth gofynnwch am becyn
ymgeisio gan eich Darparwr lleol neu lawrlwythwch
yr wybodaeth o www.dysgucymraeg.cymru

*Noder nad oes modd gwneud cals am ffi y cwrs

(Parhad)

****Mae'r gronfa i'w defnyddio ar gyfer dysgwyr lle gall fynediad at addysg gael ei rwystro am resymau ariannol, neu eu bod yn wynebu problemau ariannol am unrhyw reswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu feddyliol.****

Yn ogystal â'r uchod, i fod yn gymwys rhaid i chi fod:

Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 1 Medi 2020
Yn breswylwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd
Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Bydd Blaenoriaeth i Ddysgwyr sydd:

Yn rhiant gydag anghenion gofal plant (plentyn/plant o dan 18 mlwydd oed)
Yn rhiant sengl gydag anghenion gofal plant (plentyn/plant o dan 18 mlwydd oed)
Yn ofalwyr, a fu'n derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall
Ar incwm isel, gan gynnwys rhai sydd ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel
Yn Preswyllo mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 neu is yn ôl rhestr sgorio WIMD y Llywodraeth
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd ddim yn derbyn 'elfen plant y credyd cynhwysol' ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg penblwydd

Gellir hawlio am y costau canlynol, gyda thystioaeth:

Cais	Tystiolaeth	Uchafswm Hawliad
Gofal Plant	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig (gan nodi eu rhif cofrestredig) Manylion nifer y gwersi/ sesiynau	Hyd at 3.5 awr am £5 yr awr (£17.50) y plentyn pob gwersi/ sesiwn
Ffi Arholi	Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (yn nodi'r swm)	Lefel Mynediad: Hyd at £20 Lefel Sylfaen: Hyd at £22 Lefel Canolradd: Hyd at £24 Lefel Uwch: Hyd at £32
Cyfarpar / adnoddau dysgu	Derbyneb(au) yn nodi'r defnyddiau a'r symiau	£50 mewn cyfnod o 12 mis
Costau Teithio - Milltired	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneu, manylion y daith a'r milltired	Hyd at 60 milltir fesul gwersi/cwrs x £0.25 y filltir (£15 fesul siwrnai)
Costau Teithio - Bws / Tren	Copiâu o'r tocynnau, sy'n cynnwys y dyddiad a'r symiau	£15 fesul siwrnai
Costau Parcio	Copiâu o'r tocynnau parcio, yn cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers / sesiwn
Anableddau	Llythyr swyddogol yn darparu tystiolaeth	£10 y wers / sesiwn

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan: <https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/>

(Parhad)

****The fund is to be used by learners where access to education might be inhibited by financial considerations, or who, for whatever reason, including physical or other disability, face financial difficulties.****

In addition, in order to be eligible, you must be:

16 years old, or older, on 1 September 2020
An UK or EU Resident for at least 3 years
Registered for a learning Welsh course with one of the National Centre for Learning Welsh providers

Priority will be given to learners who are:

A parent with childcare needs (child/children under 18 years old)
A single parent with childcare needs (child/children under 18 years old)
A carer; have been in care, on probation or are otherwise considered at risk
On low income, including learners who do not qualify for income support, or students from low income families
Resident in an area with an overall ranking of 190 or less according to the latest Welsh Index of Multiple Deprivation
Facing particular financial difficulties because their families will cease to receive the children element of universal credit as of the 1st September following their 19th birthday

The following costs can be claimed, with evidence:

Claim	Evidence	Maximum Claim
Childcare	Receipt by a registered childminder (including their registration number) Details of the number of lessons / sessions attended	Up to 3.5 hours at £5 per hour (£17.50) per child food each lesson / session
Exam Fee	Receipt from your provider confirming that you have paid (including the amount)	Entry Level: Up to £20 Foundation Level: Up to £22 Intermediate Level: Up to £24 Higher Level: Up to £32
Resources	Receipts showing the items and amount paid	Up to £50 in a 12 month period
Travel Costs - Mileage	Completed Travel Form with dates of journeys, journey details and mileage	Up to 60 miles per lesson x £0.25 per mile (£15 per journey)
Travel Costs - Bus / Train	Copy (or original) tickets, with dates and amounts	£15 per journey
Parking Costs	Copy (or original) parking tickets, with dates and amounts	£5 per lesson / session
Disability	Official letter providing evidence	£10 per lesson / session

For more information, go to our website:

<https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/>

Atodiad 3 - Ffurflen Gais / Claim Form

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin SA31 3EP
cyllid@dysgucymraeg.cymru



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Ffurflen Gais 'Cronfa Ariannol Wrth Gefn' Claim Form

Gwybodaeth Dysgwr <i>Learner Details</i>	
Enw Llawn <i>Full Name</i>	
Cyfeiriad <i>Address</i>	
Tref/Dinas <i>Town/City</i>	
Sir <i>County</i>	
Cod Post <i>Post Code</i>	
Rhif Ffôn <i>Phone Number</i>	
E-bost <i>E-mail</i>	
Dyddiad Geni <i>Date of Birth</i>	
Manylion Banc <i>Bank Details</i>	
Enw'r Cyfrif <i>Account Name</i>	
Cod Didoli <i>Sort Code</i>	
Rhif Cyfrif <i>Account Number</i>	
Enw'r Banc <i>Bank Name</i>	
Cyfeiriad Banc <i>Bank Address</i>	
Cod Post Banc <i>Bank Post Code</i>	

Manylion Cwrs <i>Course Details</i>	
Darparwr Cwrs <i>Course Provider</i>	
Eich Rhif Cofrestru <i>Your Registration Number</i>	
Cyfeirnod y Cwrs <i>Course Reference Number</i>	
Tiwtor y Cwrs <i>Course Tutor</i>	
Lleoliad y Cwrs <i>Course Location</i>	

Cyfnod y Cais <i>Claim Period</i>		
Blwyddyn <i>Year</i>	Tymor <i>Term</i>	Dyddiad <i>Dates</i>
<i>e.e. 2017</i>	<i>Tymor 1 / Tymor y Gaeaf</i>	<i>01.09.2017 – 31.12.2017</i>

Manylion Personol - Ticiwch y blychau perthnasol i chi

Cadarnhaf fy mod :

Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 1 Medi 2020	
Yn breswylwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 mlynedd	
Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gyda un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	

Yn ogystal, cadarnhaf fy mod:

Yn rhiant gydag anghenion gofal plant (plant o dan 18 mlwydd oed)	
Yn rhiant sengl gydag anghenion gofal plant (plant o dan 18 mlwydd oed)	
Yn ofalwyr, wedi derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwyr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall	
Ar incwm isel, gan gynnwys rhai ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel	
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd ddim yn derbyn elfen plant y credyd cynhwysol ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg penblwydd	
Yn preswyllo mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 neu is yn ôl rhestr sgorio WIMD y Llywodraeth (Defnydd Swyddfa yn unig)	

***Mae'n rhaid ateb yr isod:**

Gall fynediad at addysg gael ei rwystro am resymau ariannol, neu fod yr unigolyn yn wynebu problemau ariannol am unrhyw reswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu feddyliol.

Ydi'r datganiad uchod yn wir i chi:	
Os ydi, rhowch esboniad cryno	

Anabledd

Ydych chi wedi eich cofrestru yn anabl?	
Os do, rhowch esboniad cryno	

Personal Details – Tick the appropriate boxes

I confirm that I am :

16 years old, or older, on 1 September 2020	
An UK or EU Resident for at least 3 years	
Registered for a learning Welsh course with one of the National Centre for Learning Welsh providers	

I also confirm that I am:

A parent with childcare needs (children under 18 years old)	
A single parent with childcare needs (children under 18 years old)	
A carer; have been in care, on probation or are otherwise considered at risk	
On low income, including learners who do not qualify for income support, or students from low income families	
Facing particular financial difficulties because their families will cease to receive the children element of universal credit as of the 1st September following their 19th birthday	
Resident in an area with an overall ranking of 190 or less according to the latest Welsh Index of Multiple Deprivation (Office Use only)	

***This section below must be completed:**

Access to education might be inhibited by financial considerations, or who, for whatever reason, including physical or other disability, face financial difficulties.

Is the above statement true for you:	
If Yes, please provide brief details	

Disability

Are you registered disabled?	
If Yes, please provide brief details	

Ffurflen Manylion y Costau *Cost Details Form*

Cost	Manylion	Swm	Atodir Derbynneb (✓)
Cost	Details	Amount	Receipt Attached (✓)
<i>Gofal Plant</i>	<i>Meithrinfa i un plentyn 28.02.17 : 3 awr @£5 yr awr</i>	<i>£15.00</i>	<i>✓</i>
<i>Ffi Arholi</i>	<i>Ffi Arholi Lefel Mynediad</i>	<i>£20.00</i>	<i>✓</i>

- *Mae uchafsymiau y gellir eu hawlio, a ni ddylid ceisio hawlio yn fwy na'r symiau yn y polisi*
- *Cofiwch, mae'n rhaid cynnwys y dystiolaeth angenrheidiol yn unol â'r polisi. Ni fydd taliad yn cael ei weithredu heb y dystiolaeth gywir.*

- *There are limits to what can be claimed, and the amounts claimed should not exceed the allowance in the policy*
- *Remember to include the necessary evidence as outlined in the policy. No payment will be made without the correct evidence.*

Ffurflen Costau Teithio *Travel Claim Form*

Dyddiad	Taith (man cychwyn, i ble a'r man gorffen)	Pwrpas y Daith	Milltired (os mewn car)	Costau Tren, Bws, Parcio	Atodir Derbynneb /Tocyn(✓)
Date	Journey (start, destination and end location)	Journey Purpose	Mileage (if travelling by car)	Train, Bus, Parking Costs	Receipt/ Ticket Attached (✓)
28/2/17	Adref – Caerfyrddin – Adref	Gwers Cymraeg	20	-	-
30/2/17	Adref – Caerfyrddin – Adref + Parcio	Gwers Cymraeg	20	£3.40	✓
CYFANSWM MILLTIREDD <i>TOTAL MILEAGE</i>					
COST MILLTIREDD (Cyfanswm Milltired x £0.25) <i>MILEAGE CLAIM (Total Mileage x £0.25)</i>			£		
CYFANSWM COST TREN / BWS / PARCIO <i>TOTAL BUS / TRAIN / PARKING COSTS</i>				£	
CYFANSWM TEITHIO (Cyfanswm Cost Bws/Tren/Parcio + Cost Milltired) <i>TOTAL TRAVEL (Total Bus / Train / Parking Costs + Mileage Claim)</i>			£		

- Cofiwch:**
- Rhaid darparu derbynnebau ar gyfer costau trê/bws/parcio
 - Nid oes angen darparu derbynneb ar gyfer costau tanwydd
 - Mae uchafsymiau y gellir eu hawlio, a ni ddylid ceisio hawlio yn fwy na'r symiau yn y polisi
- Remeber:**
- Receipts must be provided for bus/train/parking costs
 - No receipts are required for fuel costs
 - The amounts should not exceed the allowance in the policy

Crynodeb a Datganiad

Crynodeb Cais <i>Summary</i>	
Gofal Plant <i>Childcare – Manylion ar y Ffurflen Gostau</i>	£
Ffi Arholi <i>Exam Fee – Manylion ar y Ffurflen Gostau</i>	£
Adnoddau <i>Resources - Manylion ar y Ffurflen Gostau</i>	£
Anabledd <i>Disability - Manylion ar y Ffurflen Gostau</i>	£
Costau Teithio <i>Travelling Costs</i> Manylion ar y Ffurflen Gostau Teithio – <i>Details on Travel Claim Form</i>	£
Cyfanswm Costau / Total Costs	£
Dyfarniad Grant (defnydd swyddfa yn unig) Grant Awarded (office use only)	£

Dysgwr / Learner

Cadarnhaf fod yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn a chytunaf y gall Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ofyn am wybodaeth bellach angenrheidiol i gadarnhau'r cais.

I confirm that the information on this form is correct and complete, and that I understand that The National Centre for Learning Welsh can ask for additional information in relation to the claim.

Enw <i>Name</i>	
Llofnod <i>Signature</i>	
Dyddiad <i>Date</i>	

Dychweler at: *Return to:*

Swyddog Gweithredol Cyllid, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP *neu* cyllid@dysgucymraeg.cymru

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan:

<https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/>

For more information, go to our website:

<https://learnwelsh.cymru/support/financial-support/>